
| PWYLLGOR CYNLLUNIO | DYDDIAD: 14/03/2016 |
| --- | --- |
| ADRODDIAD YR UWCH REOLWR CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD | CAERNARFON |

**Rhif**: **6**

**Rhif y Cais / Application Number : C16/0063/17/MW**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



Rhif y Cais: C16/0063/17/MW
Dyddiad Cofrestru: 25/01/2016
Math y Cais : Llawn - Cynllunio
Cymuned Llandwrog
Ward: Talysarn

Bwriad: CAIS DAN ADRAN 73 I WYRO AMOD 6 O GANIATÂD CYNLLUNIO RHIF C14/0471/17/LL ER MWYN CYNYDDU'R ALLBWN
Lleoliad : CHWAREL MOEL TRYFAN, RHOSGADFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL547RF

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CYMERADWYO CANIATÂD CYNLLUNIO

**1 Disgrifiad:**

1.1 Mae Chwarel Moel Tryfan ac Alexandra yn safle gwaith llechi sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae wedi'i lleoli ar dir uwch gyda hen weithfeydd llechi a rhostir yn gefndir iddi ac mae'n weladwy o diroedd uwch a mwy mynyddig Parc Cenedlaethol Eryri i'r dwyrain ac arfordir Arfon i'r gorllewin. Mae'r safle wedi'i leoli ar dir comin gyferbyn â Hawl Tramwy cyhoeddus, ardal gwarchod y dirwedd ac wedi'i gynnwys ar gofrestr tirwedd hanesyddol (Nantlle) Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r safle hwn wedi'i leoli oddeutu 1100m i'r de o bentref Rhosgadfan a 900m i'r gogledd o'r Fron.

1.2 Roedd y safle'n weithredol dan ddarpariaethau caniatâd a roddwyd yn 1951 ar gyfer cynhyrchu llechi toi a chynnyrch carreg hyd nes i oblygiadau ariannol beri iddo gau yn 1973. Cynhwyswyd y safle ar restr statudol o hen weithfeydd mwynau yn 1995 ac fe'i dosbarthwyd yn 'safle segur' dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd 1995. Ar 8 Hydref 2007, cyflwynodd Cyngor Gwynedd benderfyniad, yn amodol ar dderbyn rhestr ddiwygiedig o amodau dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, i ail-gychwyn ennill a gweithio mwynau ynghyd â gweithrediadau cysylltiedig yn y chwarel.

1.3 Bu i Benderfyniad yr Adolygiad Caniatâd Mwynau (ROMP) gwreiddiol Cyf. C07/0325/17/MW gyflwyno nifer o amodau yn cynnwys cyfyngu ar gludo cynnyrch y chwarel o'r safle. Ceisiodd y caniatâd cynllunio dyddiedig 5 Tachwedd 2014 (C14/0471/17/MW) ymlacio'r cyfyngiadau a osodwyd dan amod 6 fel y gellid cynyddu allbwn y chwarel o 10,000 i 20,000 o dunelli'r flwyddyn ar gyfradd o ddim mwy na phedwar llwyth y dydd. Roedd caniatâd a roddwyd yn ddiweddar dan gyfeirnod C13/1296/17/LL yn darparu ar gyfer uwchraddio rhan o ffordd fynediad y chwarel, ffurfio ardal bentyrru/trefnu a lledu'r pwynt mynediad presennol i gerbydau i alluogi lorïau HGV ddefnyddio'r pwynt mynediad yn fwy diogel.

1.4 Cyflwynir y cais hwn dan Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref i amrywio amod 6 o ganiatâd cynllunio C14/0471/17/LL er mwyn gwaredu'r cyfyngiad allbwn blynyddol uchaf o 20,000 o dunelli'r flwyddyn a galluogi cynnydd mewn allbwn fydd yn destun asesiad pellach yn yr adroddiad hwn. Cynigir bod yr amod addasedig yn darllen fel a ganlyn;

*"Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau ymlaen llaw, ni chaniateir tynnu mwy na phedwar llwyth HGV y dydd o'r chwarel. Rhaid gofalu bod ffigyrau allbwn y safle dros unrhyw gyfnod penodedig ar gael o fewn 21 diwrnod ar gais yr awdurdod cynllunio lleol."*

1.5 Mae'r cais wedi cael ei sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'i diwygiwyd). Nid yw'r bwriad yn syrthio dan unrhyw feini prawf datblygu yn Atodlen 1 ond mae yn syrthio o fewn disgrifiad y datblygiad dan Baragraff 2, Atodlen 2, (Diwydiant Echdynnu), ble mae'r trothwyon a'r meini prawf perthnasol yn cynnwys yr 'holl ddatblygiad'. Yn ogystal, mae Paragraff 13, Atodlen 2, yn berthnasol i unrhyw newid neu estyniad i ddatblygiad sydd wedi'i awdurdodi'n barod. Wedi asesu effaith debygol y cynigion datblygu ar yr amgylchedd gan ddefnyddio'r meini prawf dan Atodlen 3, ystyrir bod effaith debygol y datblygiad ar yr amgylchedd yn annigonol i gyfiawnhau cyflwyno datganiad amgylcheddol gyda'r cais.

1.6 Mae'r cais hwn yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor cynllunio ar gais yr aelod lleol o'r ward gyfagos yn seiliedig ar broblemau sy'n gysylltiedig â thraffig chwarel trwm yn yr ardal.

## 2 Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Unedol.

### 2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:

- POLISI STRATEGOL 2 - **Yr Amgylchedd Naturiol**
- POLISI STRATEGOL 3 - **Treftadaeth Adeiledig a Hanesyddol**
- POLISI STRATEGOL 7 – **Mwynau**
- POLISI STRATEGOL 16 – **Cyflogaeth**
- POLISI A2 - **Gwarchod Gwead Cymdeithasol, Ieithyddol a Diwylliannol Cymunedau.** Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa neu leoliad cynigion.
- POLISI B10 – **Amddiffyn a Chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd.** Gwarchod a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.
- POLISI B12 - **Diogelu Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol .** Diogelu tirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a allai achosi difrod sylweddol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu lleoliad.
- POLISI B18 - **Gwarchod a gwella safleoedd daearegol/geomorffolegol pwysig rhanbarthol (RIGS).** Gwrthod cynigion sy'n debygol achosi difrod sylweddol i safleoedd daearegol/geomorffolegol pwysig rhanbarthol (RIGS) oni bai bod yr angen am y bwriad yn gorbwyso gwerth y safle.
- POLISI B23 – **Mwynderau.** Diogelu mwynderau'r ardal leol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.
- POLISI B33 – **Datblygiadau sy'n Creu Llygredd neu Boendod.** Gwarchod iechyd y cyhoedd, diogelwch mwynderau, neu ansawdd yr amgylchedd adeiledig neu naturiol o ganlyniad i lefelau uwch o lygredd.
- POLISI C9 - **Datblygu Mwynau Tu Allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.** Caniateir safleoedd i ddatblygu mwynau ar sail cyfres o feini prawf sy'n cynnwys yr egwyddorion sy'n ymwneud â mwynderau'r trigolion lleol, yr effeithiau ar y dirwedd, manylion gweithredol a'r modd y gweithir y deunydd a gynhyrchir.

- POLISI C10 - **Cyfrannu tuag at y Cyflenwad Agregau.** Cadw mewn cof y polisi cenedlaethol cyfredol ar gynnal banc tir o fwynau agregau a'r canllaw perthnasol yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau NCTM (Cymru) 1: Agregau.
- POLISI C12 - **Cylchfeydd Rhagod.** Gwrthodir ceisiadau cynllunio i gloddio mwynau o fewn cylchfeydd rhagod a nodir ar y mapiau cynigion oni bai y gellir darparu cylchfeydd rhagod newydd sy'n adlewyrchu'r isafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau.
- Polisi CH22 - **Rhwydwaith Beicio, Llwybrau a Hawliau Tramwy.** Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wrthod cynigion a fydd yn atal cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os nad yw hyn yn bosibl bydd angen sicrhau darpariaeth briodol i wyro'r llwybr i ddarparu llwybr newydd a derbyniol.
- POLISI CH33 – **Diogelwch ar Ffyrdd a Strydoedd.** Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio â meini prawf penodol sy'n ymwneud â'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

**2.3 Polisi Cenedlaethol**

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru, Fersiwn 8 (Chwefror 2016),
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru: AGREGAU (Mawrth 2004)
- Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014)
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn (Hydref 1997), Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18, Trafnidiaeth (Mawrth 2007), Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygiad Economaidd (Chwefror 2014), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**3 Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 2259 – Cynnig i barhau i weithio Chwareli Moeltryfan ac Alexandra, Cesarea – Caniatawyd 11 Rhagfyr 1951.

3.2 Tomen Gwastraff Llechi Alexandra Bach - Derbyniwyd hysbysiad ar 22 Tachwedd 2004 i dynnu oddeutu 60,000 tunnell o ddeunydd o'r dyddodion gwaith mwynau. Caniatâd cynllunio tybiedig dan Rhan 23 (b) Gorchymyn Cyffredinol Datblygiadau a Ganiateir 1995.

3.3 Tomen Wastraff Newydd Crown - Derbyniwyd hysbysiad ar 19 Mai 2004 i dynnu oddeutu 13,000 tunnell o ddeunydd o'r gwaddod gwaith mwynau. Caniatâd cynllunio tybiedig dan Rhan 23 (b) Gorchymyn Cyffredinol Datblygiadau a Ganiateir 1995.

3.4 C07A/0325/17/MW – Cofrestrwyd cais i gymeradwyo amodau safle mwynau segur Rhan 1, dan atodlen 13, paragraff 9 Deddf yr Amgylchedd 1995, gyda'r awdurdod ar 1 Mai 2007. Penderfynodd Cyngor Gwynedd, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, y dylai'r gwaith o ennill a gweithio mwynau a'r gweithrediadau cysylltiedig yn Chwarel Moeltryfan ac Alexandra fel y caniatawyd

dan ganiatâd cynllunio rhif 2259, dyddiedig 11 Rhagfyr 1951, fod yn destun rhestr o amodau wedi'u diwygio.

3.5 C09A/0207/17/MW – Caniatawyd gydag amodau ar 20 Ebrill 2009 – Codi iard ddiogel, strwythurau, cynhwysyddion, tanciau gwaddodi a gosod peiriannau ar gyfer cynhyrchu llechi pensaernïol a chynnyrch crefftwaith llechi. Mae'r cyfleusterau'n ofynnol ar gyfer torri bIociau llechi a dynnir o'r chwarel er mwyn paratoi a chynhyrchu cynnyrch llechi pensaernïol a chrefftwaith ac mae'n hanfodol sefydlu iard ddiogel a gweithdy er budd hyfywdra'r gwaith mwynau.

3.6 C13/1296/17/LL - Caniatawyd gydag amodau ar 19 Mawrth 2014 – Newidiadau i'r fynedfa briffordd bresennol a gwelliannau i'r ffordd gludo ynghyd â chreu ardal dros dro ar gyfer storio mwynau wedi'u prosesu.

3.7 C14/0471/17/MW - Caniatawyd gydag amodau ar 5 Tachwedd 2014 - Amrywio amod 6 sy'n gysylltiedig â phenderfyniad ROMP C07A/0325/17/MW i ganiatáu cynnydd yn allbwn y chwarel o 10,000 i 20,000 o dunelli'r flwyddyn ar gyfradd o ddim mwy na phedwar llwyth y dydd.

3.8 C15/0571/17/MW - Caniatawyd gydag amodau ar 1 Medi 2015 – Cais rhannol ôl-weithredol i gadw ardal stoc chwarel, ail-godi adeilad i ddarparu gofod gweinyddol a lles, gosod pont bwyso a gwaredu tomen llechi i ail-alinio llwybr cludo'r chwarel.

**4 Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned Llandwrog: Dim gwrthwynebiad, yn amodol i fonitro rheolaidd gan yr awdurdod cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad allbwn.

Gwarchod y Cyhoedd: Dim ymateb

Uned Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd: Dim gwrthwynebiad i gynyddu'r allbwn ond ddim yn cymeradwyo cynnydd yn nifer y symudiadau cludo trwm.

Pwysleisio bod cytundeb anffurfiol wedi'i wneud â gweithredwr y chwarel i'r cerbydau cludo ddefnyddio llwybr Penygroes a Charmel i'r chwarel ble bo modd.

Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus Gwynedd: Dim gwrthwynebiad

Cyfoeth Naturiol Cymru: Ni ystyrir y bydd cynnydd yn allbwn y chwarel yn cael effaith andwyol ar SoDdGA Daearegol Moel Tryfan.
Mae'r chwarel wedi'i lleoli o fewn Tirwedd Eithriadol/Diddordeb Hanesyddol Arbennig Nantlle. Er nad yw hwn yn ddynodiad statudol, noda Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru bod hwn yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio a bod angen rhoi sylw dilys iddo wrth wneud penderfyniad.
Rhaid i'r gweithredwr sicrhau nad yw cynnydd mewn allbwn yn arwain at unrhyw afliwiad neu waddodi mewn cyrsiau dŵr.

Yr Arolygiaeth Chwareli: Dim ymateb

| | |
|---|---|
| Uned Gofrestru Cyngor Gwynedd (Tir Comin): | Dim ymateb |
| Llywodraeth Cymru (Tir Comin): | Dim gwrthwynebiad |
| Cymdeithas Bori Uwchgwyrfai: | Dim ymateb |
| Asiant Mwynau Ystadau'r Goron: | Mae Ystadau'r Goron yn berchen ar eiddo gyferbyn â'r chwarel ond nid yw wedi rhoi caniatâd i'r ymgeisydd ddefnyddio tir Ystâd y Goron hyd yma. |

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd hysbyseb ym mynedfa'r chwarel a rhoddwyd gwybod i drigolion cyfagos drwy lythyr ar 28 Ionawr 2016. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn hysbysiad i'r wasg ym mhapur y Caernarfon & Denbigh Herald ar 3 Chwefror 2016. Derbyniwyd dau lythyr yn gwrthwynebu a wrthwynebai'r bwriad am y rhesymau cynllunio a ganlyn;

- Cynnydd posib yn yr allbwn o hyd at 36,000 tunnell y flwyddyn yn defnyddio cerbydau gyda llwyth (*payload*) 30 tunnell.
- Hirhoedledd y gweithrediad mwynau ym Moel Tryfan, o ystyried y cynnydd yn allbwn y chwarel,
- Sŵn a dirgryniad,
- Agosatrwydd eiddo preswyl at fynedfa'r safle a'r llwybr cludo,
- Addasrwydd llwybrau cludo'r chwarel a'r seilwaith ffyrdd lleol i gludo lorïau cymalog a chludo peiriannau,
- Lleoliad gwledig tawel,
- Cerbydau cludo'n achosi difrod posib i eiddo cyfagos,
- Diogelwch defnyddwyr eraill y ffyrdd a cherddwyr mewn pentrefi sy'n amgylchynu'r chwarel.

Mae'r rhai a ganlyn yn sylwadau a wnaed nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio perthnasol;

- Newidiadau i gynllun datblygu cyffredinol y chwarel,
- Adolygiad o gyflymderau teithio,
- Diogelwch a lles da byw amaethyddol,
- Arwyddion / marciau ffordd priodol,
- Cyhoeddusrwydd annigonol ar y cais.

**Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

## 5 Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi ardystio'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a ddarparwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a adolygwyd yn 2014. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli'n gynaliadwy. Prif ddiben y datganiad yw nodi'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru.

5.2 Mae'r cais hwn yn cynnig amrywio amod 6 o gais cynllunio C14/0471/17/MW er mwyn cynnal yr allbwn a ganiateir o 4 llwyth y dydd ond i gael gwared ar y cyfyngiad cyffredinol o 20,000 tunnell y flwyddyn. Mae'r bwriad o amrywio'r amod yn adlewyrchu caniatâd diweddar a roddwyd i wneud gwelliannau i'r fynedfa a'r ffordd gludo bresennol ynghyd â ffurfio compownd trefnu ar gyfer llwytho a phentyrru stoc cynnyrch y chwarel.

5.3 Nid dim ond deunydd wedi'i dynnu o wyneb gwaith y chwarel, fel y caniateir dan y penderfyniad ROMP, sy'n gwasanaethu'r gwaith mwynau yn Alexandra. Mae yna hefyd ddwy domen gwastraff llechi sydd â hawliau datblygu a ganiateir i symud deunydd o ddyddodion gwaith mwynau. Fodd bynnag, mae'r amodau sydd ynghlwm â'r caniatâd presennol yn cyfyngu allbwn cyffredinol y chwarel i bedwar llwyth y dydd.

5.4 O ran yr angen am y datblygiad, nid yw'r bwriad gyfystyr ag estyniad i fanc tir cronfeydd craig galed yr awdurdod yn ôl y polisi ac arweiniad cenedlaethol cyfredol a geir yn NCTM1 (Cymru) Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol. Diben y cais yw cynyddu capasiti allbwn y chwarel. Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio â Pholisïau C9 a C10 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

5.5 Yn ychwanegol i'r egwyddorion ynghylch yr angen am y datblygiad, ymdrinnir isod â'r materion cynllunio hanfodol yn yr achos hwn.

## 6 Mwynderau Gweledol

6.1 Cais i amrywio amod yn unig yw hwn ac nid yw'n cynnwys ychwanegu at seilwaith y chwarel ac yn sgil hynny nid oes unrhyw newid perthnasol i effaith weledol y gwaith.

6.2 Bydd unrhyw effaith weledol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn yn deillio'n bennaf o bentyrru deunydd yn yr iard gynnull a sefydlwyd yn ddiweddar ar ben llwyfandir ar domen llechi ond hefyd, ddefnyddio ardal drefnu fechan wrth droed yr inclein.

6.3 Dim ond cyfanswm cyfyngedig o ddeunydd fydd yn cael ei storio yn yr ardaloedd pentyrru stoc ar unrhyw adeg benodol. Gyda thomenni gwastraff llechi llawer uwch yn yr ardal leol, ni fydd y pentwr deunydd llechi yn effeithio'n sylweddol ar ymddangosiad gweledol presennol yr ardal ac yn sicr, ni fydd yn creu unrhyw effaith andwyol ar yr ardal cadwraeth y dirwedd neu'r dirwedd o ddiddordeb hanesyddol eithriadol dynodedig.

6.4 Mae'r datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau C9, B10 a B12 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

## 7 Mwynderau cyffredinol a phreswyl

7.1 Mae gan ddatblygiadau mwynau botensial i arwain at effeithiau amgylcheddol llwch, sŵn a dirgrynu yn deillio o waith cloddio a phrosesu. Fodd bynnag, y brif ystyriaeth gyda'r cais hwn yw'r defnydd a wneir o lorïau cymalog sy'n cario mwy o lwyth (*payload*) o'r chwarel. Ac eithrio caniatâd diweddar am ail-alinio llwybr cludo'r chwarel, ymgymerir â'r gwaith o falurio a sgrinio mwynau yn y chwarel a bydd unrhyw gynnydd yng nghynhyrchiad mwynau a'r effeithiau tebyg o sŵn, llwch a dirgryniad wedi'u cyfyngu i'r cyfyngiadau sydd ar waith y chwarel. Felly, ni ystyrir y bydd unrhyw effeithiau perthnasol ar fwynderau preswyl y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i waith y chwarel, ac eithrio'r cynnydd yn y gwaith cludo mewnol o'r chwarel i'r ardal storio cynnyrch.

7.2 Mae Polisi Cynllunio Mwynau Cymru a NCTM (Cymru) 1: Agregau wedi sefydlu'r egwyddor o gylchfeydd rhagod o gwmpas safleoedd echdynnu mwynau ble mai'r nod yw amddiffyn defnyddiau tir sydd fwyaf sensitif i effaith y gweithrediadau mwynau drwy sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro. Caiff datblygiad sensitif ei ddiffinio yn NCTM1 fel; "*unrhyw adeilad a ddefnyddir gan bobl yn rheolaidd ac sy'n cynnwys ardaloedd o dai, hostelau, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai, a lle y disgwylir mwynderau o safon dderbyniol*".

7.3 Mae NCTM1 yn argymell pellter sydd o leiaf 100 metr i ffwrdd ar gyfer gweithfeydd tywod a graean ac eraill lle na chaniateir ffrwydro, er mae CDU Gwynedd yn manylu ar gylch rhagod o 200m ar gyfer pob gwaith llechi gan gynnwys dyddodion gwaith mwynau. Fodd bynnag, noda'r arweiniad ymhellach fod ymchwil wedi dangos fod pobl sy'n byw'n agos i waith mwynau yn ystyried mai llwch yw prif effaith cloddio mwynau a gwaith prosesu, a thraffig, sŵn a ffrwydro i ganlyn hynny.

7.4 Mae'r gyfres o amodau a gafodd eu cynnwys yn y penderfyniad mwynau a'r datblygiadau cysylltiedig yn y chwarel yn darparu digon o reolaethau i gyfyngu ar effaith oriau gweithredu, sŵn a llwch ar fwynderau'r ardal. Er na wneir unrhyw newid i nifer y llwythi dyddiol, mae'r bwriad yn cynyddu capasiti allbwn y gwaith mwynau.

7.5 Bydd y potensial ar gyfer effeithiau sŵn yn deillio o weithredu offer a pheiriannau ac o symud deunydd o'r safle mwynau i'r rhwydwaith priffyrdd lleol. Mae eiddo sy'n sensitif i sŵn o fewn 120m o'r llwybr cludo sydd wedi'i sefydlu, yn fwyaf amlwg, Reifl Fawr sydd wedi'i leoli union gyferbyn â mynediad y safle.

7.6 Dangosodd asesiad effaith sŵn a gyflwynwyd i gefnogi'r cais diweddar ar gyfer gwella'r trac mynediad a sefydlu ardal storio dros dro fod lefelau'r sŵn a oedd yn deillio o lwytho deunydd a symudiadau cludo ar hyd y trac mynediad hwn sydd wedi'i wella wedi'u rhagweld i fod 5db yn is na'r trothwy o 10db yn uwch na lefelau sŵn cefndirol mewn eiddo sensitif gerllaw, yn unol â chanllawiau NCTM1. Ystyrir na fydd unrhyw newid arwyddocaol o ran effeithiau sŵn o ran y bydd nifer y symudiadau cludo dyddiol yn aros fel mwyafrif o bedwar y dydd.

7.7 Ymddengys mai prif effeithiau'r bwriad fydd y potensial am sŵn a llwch y gellir ei briodoli i weithrediadau cludo gan effeithio ar eiddo cyfagos ac aneddiadau sy'n amgylchynu'r chwarel. Er nad yw'r bwriad yn cynnwys unrhyw newid yn ardal ddaearyddol y gwaith, mae'n cynnwys cynnydd posib o 80% mewn allbwn o 20,000 tunnell y flwyddyn i 36,000 tunnell y flwyddyn. Fodd bynnag, gellir cyflawni hyn heb unrhyw gynnydd net mewn symudiadau cludo neu ymestyn oriau gweithio yn y safle.

7.8 Felly, ystyrir na fydd y bwriad i addasu'r caniatâd cynllunio i waredu'r cyfyngiad o 20,000 tunnell y flwyddyn, a chyfyngu ar symudiadau cerbydau i bedwar llwyth y dydd, yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly ei fod yn cydymffurfio â pholisi B23 y CDU (mwynderau).

## 8 Materion traffig a mynediad

8.1 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nid oedd gan y gwasanaeth priffyrdd a thrafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i gynyddu'r allbwn ond nid oedd yn cymeradwyo cynnydd yn nifer y symudiadau cludo trwm.

8.2 Mae'r cylch troi ym mynediad y safle wedi'i wella'n ddiweddar dan ganiatâd cynllunio penodol a roddwyd i ddarparu ar gyfer lorïau HGV. Nid oes rheswm cynllunio dros osod cyfyngiad ar faint cerbyd y gellir ei ddefnyddio i gludo deunydd o'r safle ac nid oes cyfyngiad pwysau wedi'i osod ar y briffordd gyfagos. Felly, nid oes unrhyw beth yn cyfyngu ar gludo'r cynnyrch gorffenedig o'r safle gan ddefnyddio lorïau cymalog gyda llwyth *payload* 30 tunnell dan delerau'r caniatâd presennol.

8.3 Ar hyn o bryd, mae'r allbwn wedi'i gapio ar 20,000 o dunelli'r flwyddyn ar gyfradd o ddim mwy na 4 llwyth y dydd. Fel arfer, gallai cerbyd wyth olwyn sy'n cario llwyth *payload* 20 tunnell gario cymaint â 480 tunnell o ddeunydd o'r safle mewn wythnos. Yn seiliedig ar flwyddyn waith 50 wythnos, gallai hyn gyflawni cyfanswm allbwn o 24,000 tunnell. Fel y cyfryw, gallai lorïau HGV sy'n cario llwyth *payload* 30 tunnell gyflawni uchafswm o 36,000 tunnell y flwyddyn heb gynyddu nifer y llwythi dyddiol neu dorri'r cyfyngiad oriau gweithio (07:30 - 18:00 ddydd Llun i ddydd Gwener a 07:30 - 13:00 ddydd Sadwrn). Fodd bynnag, mewn realiti, bydd galw'r farchnad am fathau penodol o gynnyrch llechi a mwynau yn gofyn am ddefnyddio'r lorïau wyth olwyn a'r lorïau cymalog mwy ac mae'n annhebygol y bydd allbwn y chwarel yn cyflawni'r cwota llawn o 36,000 tunnell y flwyddyn.

8.4 Fodd bynnag, ystyrir bod yr amod yn cynnal yr angen am ffigyrau allbwn dros unrhyw gyfnod penodol fod ar gael i'r awdurdod cynllunio mwynau.

8.5 Bydd angen caniatâd cynllunio pellach er mwyn defnyddio'r iard drefnu y tu hwnt i 2017 pe byddai'n dod i'r amlwg nad oes modd i lorïau cymalog ddringo'r inclein blaenorol i'r brif ardal storio cynnyrch. Ar hyn o bryd, mae modd i gerbydau wyth olwyn gael mynediad at y safle drwy ddilyn y ffordd gludo sydd wedi'i hail-alinio'n ddiweddar dan ganiatâd a roddwyd yn 2015.

8.6 Gan gofio na wneir newid i nifer y llwythi dyddiol, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol mewn egwyddor o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi CH33 y Cynllun Datblygu Unedol.

## 9 Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Tir y Goron a Thir Comin

9.1 Mae'r safle wedi'i leoli ar Dir Comin Uwchgwyrfai ac mae'r mynediad ar hyn o bryd yn cyd-redeg â Llwybr Cyhoeddus Rhif 46 am oddeutu 190m. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd y swyddog hawliau tramwy nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad.

9.2 Mae'r bwriad felly'n cydymffurfio â gofynion Polisi CH22 y Cynllun Datblygu Unedol.

9.3 Yn ogystal â'r cais am ganiatâd cynllunio, mae angen caniatâd Llywodraeth Cymru hefyd i gyflawni'r gwaith. Bydd unrhyw ganiatâd cynllunio hefyd yn gofyn am gyflwyno 'nodyn i'r ymgeisydd' i gadarnhau'r mater o'u caniatâd i gynnal y gwaith dan Reoliadau Gwaith ar Diroedd Comin ac ati (Gweithdrefn) (Cymru) 2012 ("y Rheoliadau Gwaith").

9.4 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd swyddfa Ystadau Mwynau'r Goron nad yw'r bwriad diwygiedig h.y. peidio â chynnwys y llwybr cludo trwy'r Fron yn effeithio ar Dir y Goron i'r dwyrain o weithfeydd y chwarel.

**10 Materion cynaladwyedd** (Gweler 'Egwyddor y datblygiad').

**11 Draenio'r Safle**

11.1 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru i'r gweithredwr sicrhau na fyddai cynnydd mewn allbwn yn arwain at unrhyw afliwiad neu waddodi mewn cyrsiau dŵr. O ystyried na fydd yr amrywiad yn yr amod yn cynnwys unrhyw waith strwythurol, bydd yr un amodau cyfredol yn berthnasol i warchod cyrsiau dŵr lleol. Ystyrir felly bod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion Polisi 33 y CDU (llygredd a niwsans).

11.2 Er nad yw'n destun y cais cynllunio hwn, mae gwaith draenio ychwanegol wedi'i weithredu yn y chwarel ac ar ymyl y trac mynediad yn ddiweddar.

**12 Yr Economi**

12.1 Yng Ngwynedd, mae chwareli llechi wedi bod ffordd o fyw ers canrifoedd ac mae etifeddiaeth ei weithgarwch wedi dod yn gymaint o ran o ddiwylliant a thirwedd yr ardal â'r iaith Gymraeg a'r golygfeydd. Mae manylion y cais yn datgan y byddai'r datblygiad yn cynnal cyflogaeth leol ac ystyrir y byddai yna felly fuddion i'r economi leol. Ar hyn o bryd, mae'r chwarel yn cyflogi tri gweithiwr llawn amser ynghyd ag un swydd dymhorol, yn ogystal â staff (gweithredwyr cludo a pheiriannau) a gyflogir yn uniongyrchol gan Llechi Cymru.

12.2 O ran polisi cynllunio strategol 16 y CDU, mae'r asesiad o'r meini prawf sy'n ymwneud â'r effaith ar yr amgylchedd, ar nodweddion diwylliannol yr ardal neu ar fwynderau trigolion cyfagos wedi cael sylw yn yr adroddiad hwn. Felly, mae'n debygol y bydd y bwriad yn gwneud cyfraniad pwysig i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol 16 a Pholisi A2 y Cynllun Datblygu Unedol.

**13 Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

13.1 Mae'r prif bryderon a godwyd gan drydydd parti mewn ymateb i ymgynghoriad ar y cais yn cynnwys, yn bennaf, effaith bosib cynnydd mewn traffig cludo trwm ar fwynderau trigolion lleol a'r aneddiadau sy'n amgylchynu'r chwarel.

13.2 Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ystyried y gwrthwynebiadau hyn fel ystyriaethau perthnasol wrth baratoi argymhelliad ar gyfer y cais. Yn fwy na hyn, mae'r ystyriaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r bwriad hwn wedi cael eu hasesu yng nghyd-destun polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol, ac ni ystyrir bod cyfiawnhad i wrthod y cais.

**14 Casgliadau:**

14.1 Y materion cynllunio i'w hystyried yn yr achos hwn yw effeithiau posib cynyddu'r symudiadau cludo ar fwynderau trigolion lleol a'r rhwydwaith briffyrdd lleol. Ystyrir:

- Ei bod yn annhebygol y gwelir unrhyw newid amlwg yn amodau gwaith y safle nac yn effaith gweledol y datblygiad. Nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy'n ddigon

arwyddocaol i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, ac mae'r materion sy'n ymwneud â rheolaethau gweithredu wedi'u hen sefydlu ar y safle hwn.

- Ystyrir nad yw'r bwriad yn cynnwys unrhyw gynnydd yn nifer y symudiadau cludo dyddiol ac ni fydd unrhyw newid sylweddol o ran effeithiau sŵn, dirgryniad a llwch sy'n destun cyfyngiadau rheolaethol drwy amodau cynllunio.
- Ystyrir na fydd y bwriad yn cael effaith uniongyrchol nac anuniongyrchol (ffisegol neu beidio) ar yr Ardal Dirwedd Hanesyddol (Polisi B12),
- Bydd y bwriad yn galluogi'r chwarel i wneud y defnydd gorau o'r cronfeydd llechi ar gyfer agregau, deunydd pensaernïol a defnyddiau eraill ac wrth wneud hynny, bydd yn sicrhau cyfleoedd cyflogaeth hirdymor yn yr ardal gan wneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i'r economi leol (polisi strategol 16).
- Mae'r penderfyniad ar gynllun y gwaith a'r rhestr amodau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad ROMP eisoes wedi sefydlu fod y datblygiad yn dderbyniol. Byddai'r datblygiad yn cyfrannu at gyflenwi cynnyrch llechi mewn modd cynaliadwy yng Ngwynedd, ac mae'n cydymffurfio â gofynion polisi cynllunio mwynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (yn benodol Polisïau C9, C10 a C14).
- Nid yw amod 6 y caniatâd yn gosod cyfyngiad ar faint y cerbyd y gellir ei ddefnyddio i gludo deunydd o'r safle ac nid oes cyfyngiad pwysau yn ei le ar y briffordd gyfagos. Fel y cyfryw, gallai lorïau HGV sy'n cario llwyth *payload* 30 tunnell gyflawni uchafswm o 36,000 tunnell y flwyddyn heb gynyddu nifer y llwythi dyddiol neu dorri'r cyfyngiad oriau gweithio (07:30 - 18:00 ddydd Llun i ddydd Gwener a 07:30 - 13:00 ddydd Sadwrn). Felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio â Pholisi CH33 y CDU (Diogelwch Ffyrdd).
- Felly, ystyrir na fydd y bwriad i addasu'r caniatâd cynllunio i waredu'r cyfyngiad o 20,000 tunnell y flwyddyn, a chyfyngu symudiadau cerbydau i bedwar llwyth y dydd, yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi B23 y CDU (mwynderau).
- Mae'r cylch troi ym mynediad y safle wedi'i wella'n ddiweddar dan ganiatâd cynllunio penodol a roddwyd i ddarparu ar gyfer lorïau HGV.

**15 Argymhelliad:**

15.1 Cymeradwyo caniatâd cynllunio i addasu amod 6 fel a ganlyn:

*Ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau ymlaen llaw, ni chaniateir tynnu mwy na phedwar llwyth HGV y dydd o'r chwarel. Rhaid gofalu y bydd ffigyrau allbwn o'r safle dros unrhyw gyfnod penodedig ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol, ar gais, o fewn 21 diwrnod.*

15.2 Yn ogystal, bydd yr holl amodau ar y caniatâd presennol i reoli sŵn, llwch, dirgryniad o ffrwydron, draenio'r safle, rheoli llygredd, materion archeolegol, trefn ac adolygu gweithrediadau ac adfer yn cael eu cynnwys yn y caniatâd newydd.